Archarwyr Byd Cyw

Parti Pen-blwydd Plwmp gan Sioned Wyn Roberts

Plwmp's Birthday

1. Heddiw mae pen-blwydd Plwmp, ac mae'r te parti, y deisen a'r anrhegion i gyd yn barod.

2. Mae Plwmp yn gobeithio cael anrheg arbennig heddiw – siwpyr-bŵer. Mae gan Cyw, Triog, Llew a Jangl glogyn archarwr bob un, ac mae Plwmp eisiau un hefyd.

3. Dyma Plwmp yn dechrau agor y parseli. Am anrhegion! Pensiliau lliw gan Llew. Breichled gan Jangl. Coron gan Cyw. Sanau gan Deryn.
"Diolch yn fawr," meddai Plwmp yn gwrtais.

4. Dim ond un anrheg sydd ar ôl ac mae Plwmp yn rhwygo'r parsel yn wyllt. Mae hwn yn edrych fel clogyn archarwr, meddyliodd Plwmp. Ond tywel lan y môr yw'r anrheg, nid clogyn archarwr.
"Diolch, Bolgi," meddai Plwmp, ond roedd yn teimlo'n siomedig.

5. Erbyn hyn, mae'n amser goleuo'r canhwyllau ar y deisen pen-blwydd ac mae pawb yn morio canu "Pen-blwydd hapus i ti!". Dyma Plwmp yn codi ei drwnc, anadlu i mewn a chwythu wwwwwwwwwsh...!

6. Mae'r canhwyllau i gyd yn chwythu i ffwrdd.
Mae'r hetiau parti yn chwythu i ffwrdd.
Wedyn mae'r anrhegion yn chwyrlïo i bob man.

7. Ac oni bai bod Triog yn dal cynffon Llew, sy'n dal cynffon Bolgi, sy'n dal cynffon Jangl, sy'n dal coes y bwrdd, bysen nhw wedi chwythu i ffwrdd hefyd!

8. "Wps, sori," meddai Plwmp mewn sioc. "Wn i ddim beth ddigwyddodd."

9. "Plwmp! Rwyt ti wedi cael siwpyr-bŵer ac wedi cael clogyn gwyrdd," meddai Jangl.

10. "Rwy'n archarwr o'r diwedd!" meddai Plwmp yn hapus.

11. Ar unwaith, mae Plwmp yn defnyddio ei siwpyr-bŵer i helpu ei ffrindiau. Ond yna mae Plwmp yn chwythu'n galed.....

12. ... ac mae sŵn bach ffffffff yn dod allan o dan ei gynffon.

13. "Wps! sori," meddai'n swil ac mae pawb yn rowlio chwerthin. Am siwpyr-bŵer doniol sydd gan Plwmp!

1. Today is Plwmp's birthday, and the tea party, the cake and the presents are all ready.

2. Plwmp is hoping for a special present today – a superpower. Cyw, Triog, Llew and Jangl each have a superhero cape, and Plwmp wants one as well.

3. Plwmp starts opening the parcels. What lovely presents! Colouring pencils from Llew. A bracelet from Jangl. A crown from Cyw. Socks from Deryn.
"Thank you very much," says Plwmp politely.

4. There's only one present left, and Plwmp tears it open excitedly. This one looks like a superhero cape, Plwmp thinks. But it's actually a beach towel, not a superhero cape.
"Thanks, Bolgi," says Plwmp, but he feels disappointed.

5. By now, it's time to light the birthday cake candles and everyone starts singing "Happy birthday to you!". Plwmp lifts his trunk, takes a deep breath and blows... wwwwwwwwwsh...!

6. All the candles blow out.
The party hats blow away.
Then the presents go whirling everywhere.

7. And if Triog wasn't holding on to Llew's tail, who was holding on to Bolgi's tail, who was holding on to Jangl's tail, who was gripping the table leg, they would have been blown away too!

8. "Oops, sorry," says Plwmp in shock. "I don't know what happened."

9. "Plwmp! You've got a superpower, and you've got a green cape," says Jangl.

10. "I'm a superhero at last!" says Plwmp happily.

11. Straight away, Plwmp uses his superpower to help his friends. But then Plwmp blows hard ...

12. .... and a little ffffffff sound comes out from under his tail.

13. "Oops! Sorry," he says shyly, and everyone bursts out laughing. What a funny superpower Plwmp has!